# Y Pwyllgor Busnes

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Swyddfa'r Llywydd, 4ydd Llawr, Tŷ Hywel** |
| Dyddiad: | **Dydd Mawrth, 11 Chwefror 2014** |
| Amser: | **08:27 - 08:50** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Cofnodion:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | **Y Fonesig Rosemary Butler (Cadeirydd)**<br>**Lesley Griffiths**<br>**William Graham**<br>**Elin Jones**<br>**Aled Roberts** |
| Staff y Pwyllgor: | **Aled Elwyn Jones (Clerc)** |
| Eraill yn bresennol: | **David Melding, Y Dirprwy Lywydd**<br>**Adrian Crompton, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad**<br>**Christopher Warner, Pennaeth Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth**<br>**Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a Deddfwriaeth**<br>**Craig Stephenson, Prif Gynghorydd y Llywydd**<br>**Peter Greening, Llywodraeth Cymru**<br>**Claire Fife, Llywodraeth Cymru** |

## 1 Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau

## 2 Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol

Nododd y Pwyllgor y cofnodion ar gyfer eu cyhoeddi.

## 3 Trefn Busnes

3(i) Busnes yr wythnos hon

Nododd y Rheolwyr Busnes y cynhelir y pleidleisiau ar bob eitem o fusnes ac eithrio'r ddadl Cyfnod 3 cyn cychwyn trafodion Cyfnod 3 ddydd Mawrth, ac y byddai pob pleidlais mewn perthynas â'r Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn cael ei chynnal yn ystod, ac ar ôl, trafodion Cyfnod 3.

Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylid cynnal y Cyfnod Pleidleisio cyn y Ddadl Fer ddydd Mercher.

3(ii) Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Nododd y Pwyllgor Busnes amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf.

3(iii) Amserlen busnes y Cynulliad ar gyfer y tair wythnos nesaf

Penderfynodd y Pwyllgor Busnes ar drefn y busnes a chytunodd i amserlennu'r eitemau canlynol o fusnes:

**Dydd Mercher 12 Mawrth 2014**

- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru (60 munud)
- Dadl Fer - Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru) (30 munud)

## 4 Pwyllgorau

4(i) Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd: Cais i gynnal cyfarfod oddi ar y safle

Cytunodd y Pwyllgor Busnes â chais y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd i gynnal cyfarfod ffurfiol yn Aberystwyth ar 20 Chwefror 2014.

4(ii) Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol: Cais am gyfarfod ychwanegol

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i gais gan y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol i gynnal cyfarfod ychwanegol o'r Pwyllgor ddydd Llun 31 Mawrth 2014.

## 5 Cyfarfod Llawn

5(i) Papur i'w nodi: Cyngor cyfreithiol ar gyfer dadl Aelodau unigol ar gyn-weithwyr Visteon

Nododd y Rheolwyr Busnes bapur sy'n sôn wrth Aelodau am eu cyfrifoldebau, a'r amgylchiadau lle byddent yn cael eu dwyn i drefn mewn perthynas â'r ddadl Aelodau unigol ar gyn-weithwyr Visteon, a gynhelir ddydd Mercher 12 Chwefror. Dosberthir nodyn i Aelodau'r Cynulliad cyn y ddadl.

Cafodd y Rheolwyr Busnes wybod hefyd y gall unrhyw Aelod sydd am gael cyngor cyfreithiol penodol ar ei gyfraniadau cyn y ddadl wneud hynny.

### UNRHYW FUSNES ARALL

Cafodd y Rheolwyr Busnes eu hatgoffa o'r drefn pan gaiff y Cyfarfod Llawn ei atal dros dro y caiff y gloch ei chanu bum munud cyn i'r Cyfarfod Llawn ailymgynnull, a chyfrifoldeb yr Aelodau yw cyrraedd mewn amser i siarad am yr eitem gyntaf. Ni fydd y Llywydd na'r Dirprwy Lywydd yn atal y trafodion dros dro ar gyfer Aelodau sy'n cyrraedd yn hwyr.

Yn dilyn adnabod effeithiau canlyniadol newydd ar welliannau a drafodwyd wythnos diwethaf, ond na chynhelir pleidlais arnynt tan heddiw, dywedodd y Llywydd y byddai'n galw ar Lindsay Whittle i godi Pwynt o Drefn cyn cynnal y bleidlais ar welliant y Llywodraeth.